**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi, Amgylchedd ac Isadeiledd

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P Downing | P K Jones | P R Hood-Williams |
| P Lloyd | P M Matthews | W G Lewis |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| D H Hopkins | Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau |
| R Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Penny Gruffydd | Swyddog Datblygu Cynaliadwy |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Donna Verhelst-Hopkins | Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: J E Burtonshaw, M A Langstone a T M White

---

## 14 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 16 Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

Cyflwynodd y Cynghorydd D H Hopkins, Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau, Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd a Penny Gruffydd, Swyddog Polisi Cynaliadwy adroddiad y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021.

Amlinellwyd y cynlluniwyd y strategaeth i gefnogi Rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd Strategol Polisi ER 2 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Isadeiledd Gwyrdd sy'n cael eu datblygu  Cyfrannodd y strategaeth at ddyletswyddau'r cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a bydd yn cefnogi'r defnydd o Safon SDCau (Systemau Draenio Cynaliadwy) Statudol 2019. Roedd hefyd yn cyflawni un o'r camau yn amcan llesiant y Cyngor: Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe ac amcan Gweithio gyda Natur Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Ychwanegwyd bod y broses o lunio'r strategaeth yn cynnwys cysylltu â rhanddeiliaid perthnasol y cyngor o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, preswylwyr, ymwelwyr a defnyddwyr Ardal Ganolog Abertawe wrth ddatblygu'r strategaeth ddrafft, ac yna ymgynghoriad 5 wythnos ar y strategaeth ddrafft.

Roedd yr adroddiad yn nodi sut yr oedd Adran Amgylchedd Naturiol y cyngor yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Green Infrastructure Consultancy i ddatblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ddrafft ar gyfer Ardal Ganolog Abertawe; *Ardal Ganolog Abertawe – Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt*, a gynhwyswyd yn Atodiad A.  Cynlluniwyd y strategaeth i wireddu nodau isadeiledd gwyrdd Fframwaith Adfywio Ardal Ganolog Abertawe a sicrhau bod canol y ddinas yn elwa ar welliannau isadeiledd gwyrdd a gynlluniwyd yn strategol wrth gynllunio datblygiadau newydd ac adnewyddu adeiladau a mannau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes.

Roedd y strategaeth yn nodi manteision a chost-effeithiolrwydd isadeiledd gwyrdd, a fyddai'n galluogi'r cyngor a rhanddeiliaid i gymryd ymagwedd wybodus a chydlynol tuag at sicrhau'r manteision mwyaf posib, a  magu hyder buddsoddwr mewn isadeiledd gwyrdd yng nghanol y ddinas.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am ddatblygiad y  strategaeth, gan gynnwys gweledigaeth y strategaeth a sut y byddai'r cyngor yn defnyddio'r strategaeth yn gorfforaethol.  Cafodd holl sylwadau a chamau gweithredu'r arolygon cyhoeddus, e-byst, sesiynau ysgol a llyfrgell eu crynhoi yn Atodiad B.  Amlinellwyd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a fu'n ganolog i ddatblygiad y strategaeth hon ers ei syniadaeth, yn Atodiad C.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Gweithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol iawn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu'r strategaeth ragorol;
- Pwysigrwydd gwella ansawdd aer o fewn y Sir hefyd;
- Canolbwyntio'r strategaeth bresennol ar ganol y ddinas, 'prynu i mewn' gan ddatblygwyr a datblygu'r strategaeth ledled y Sir fel rhan o broses tri chyfnod;
- Oedi a achoswyd gan bandemig COVID-19;
- Cyllido'r prosiect yn y dyfodol;
- Gweledigaeth y strategaeth.

Dywedodd y Cynghorydd R Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth fod y Cabinet yn cydweithio i ddatblygu cynlluniau adfywio ac ychwanegodd fod llawer o ddiddordeb wedi'i greu gan y strategaeth, a gefnogwyd yn eang.

**Penderfynwyd** cytuno ar y strategaeth a'i hanfon ymlaen i'r Cabinet i'w mabwysiadu ym mis Chwefror 2021.

## 17 Cynllun Gwaith 2020/2021

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad y cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer 2020-2021.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Lleoedd sylw at agwedd drafnidiaeth y cynllun adfer o COVID-19, i'w thrafod ym mis Ionawr 2021. Cyfeiriodd at y nod o sut y gellid diwygio a gwella polisi'r cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni nod y cyngor i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, o fewn gwasanaethau a gweithrediadau'r cyngor.

Ychwanegodd fod hyn yn eang ei gwmpas ac y byddai'n caniatáu i'r pwyllgor gyfrannu at yr adroddiad, a fyddai'n fframwaith trafod.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.33pm

**Cadeirydd**